# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

## 28/09/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

### Cwestiynau i'r Prif Weinidog

#### Effaith y Flwyddyn Ewropeaidd Goresgyn Tlodi ac Allgau Cymdeithasol ar Gymru

***11. Eleanor Burnham:** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith y Flwyddyn Ewropeaidd Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol ar Gymru. OAQ(3)3099(FM)*

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Yr Adran Gwaith a Phensiynau yw adran arweiniol y Llywodraeth am y flwyddyn. Bydd Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn sicrhau bod deilliannau'r flwyddyn o Gymru yn dylanwadu ar bolisïau a'u bod yn rhan o adroddiad y DU gyfan ddechrau 2011.

#### Wardiau Cymysg

***12. David Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch wardiau cymysg. OAQ(3)3076(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymrwymedig i gael gwared ar wardiau cymysg mewn ysbytai a sicrhau diogelwch, preifatrwydd ac urddas i gleifion. Mae'n rhaid i ysbytai sicrhau bod cleifion yn cael gofal mewn wardiau un-rhyw, ac eithrio yn yr amgylchiadau hynny lle bo pwyslais ar ofal meddygol dwys ar frys.

#### Amddifadedd yng Nghymru

***13. Darren Millar:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gamau i fynd i'r afael ag amddifadedd yng Nghymru. OAQ(3)3094(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae llawer o fentrau ar draws Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael ag amddifadedd. Maent yn cynnwys rhaglenni megis Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol a'n hardaloedd adfywio strategol. Hefyd, bydd rhaglen adnewyddu'r economi yn hybu amgylchedd busnes cryfach a fydd o fudd i bawb.

#### Economi yng Nghymru

***14. Angela Burns:** Pa gamau y mae'r Prif Weinidog yn eu cymryd i sicrhau economi gref yng Nghymru. OAQ(3)3089(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn rhoi 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' ar waith. Yn sgîl hynny, byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith, sgiliau, ymchwil a chyfleoedd datblygu ac yn gwella'r sefyllfa ym myd busnes i gefnogi economi gryfach, fwy cynaliadwy.

#### Blaenoriaethau

***15. Andrew RT Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y chwe mis nesaf yn rhanbarth Canol De Cymru. OAQ(3)3087(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Yng Nghanol De Cymru, fel yng ngweddill Cymru, byddwn yn parhau i roi ‘Cymru’n Un’ ar waith, diogelu gwasanaethau cyhoeddus a chymryd camau i sicrhau adferiad economaidd cynaliadwy.